**Disgrifiad o'r Swydd**

**Gweithiwr Prosiect Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl, Powys**

## Pwrpas Craidd y Swydd:

Mae Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn ffordd arloesol o gefnogi teuluoedd sydd ar ffiniau gofal, sydd wedi lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal ac sydd wedi gwella canlyniadau i blant ac i deuluoedd. Mae Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae gofalwyr maeth profiadol sydd wedi cael eu hyfforddi yn darparu gofal cymorth ataliol i deuluoedd am gyfnod penodol gyda chefnogaeth gan y Rhwydwaith Maethu.

Rheolwr Prosiect Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl fydd y prif bwynt cyswllt ar gyfer gweithredu a chyflwyno'r rhaglen ym Mhowys. Bydd hyn yn golygu meithrin cysylltiadau gwaith effeithiol gyda'r tîm awdurdod lleol ac, mewn partneriaeth â'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio, datblygu perthynas gyda sefydliadau allweddol eraill i ddarparu cymorth i deuluoedd.

## Cyfrifoldebau ac atebolrwydd:

- Creu cysylltiadau a gweithio'n uniongyrchol gyda'r timau maethu a diogelu yng Nghyngor Sir Powys
- Gweithio gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl i hyrwyddo'r rhaglen ac i hyfforddi gofalwyr maeth arbenigol;
- Creu ac adeiladu perthynas gyda theuluoedd i adnabod anghenion ac i ddylunio ac i gyflwyno rhaglenni i ddiwallu'r rhain, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi i rieni a grwpiau anogaeth i blant;
- Gweithredu fframweithiau gwerthuso i fonitro, i adolygu ac i werthuso'r cynnydd;

- Datblygu adnoddau, deunyddiau a gwybodaeth ar y model Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl i hwyluso'r gwaith hyrwyddo ac i roi gwybodaeth i randdeiliaid allweddol;
- Darparu gweithgareddau a gwybodaeth i gefnogi teuluoedd i gael gafael ar raglenni cymorth ac ymgysylltu â chymorth yn y gymuned leol;
- Cydlynu a chymryd rhan mewn sesiynau dysgu myfyriol a grwpiau llywio.

**Bydd y Swydd yn Adrodd i:** Rheolwr Cymru'r Rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl

**Hyd y Contract:** Parhaol

**Band:** H

**Cyflog:** £27,000-£32,000

**Prif gymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer y rôl:**

**Ein Gwerthoedd**
Fel sefydliad, rydym ni'n credu ein bod yn gwneud gwahaniaeth i ofal maeth ac mae ein gwerthoedd pobl yn cael eu mynegi yn y gwaith a wnawn:

Rydym yn DDIBYNADWY
Rydym yn UN GYDA'N GILYDD
Rydym yn HANFODOL

**Hanfodol**

- Llawer o wybodaeth a phrofiad o ymgysylltu â rhieni a gweithio gyda theuluoedd agored i niwed mewn cyd-destun cymunedol i ddarparu gweithgareddau ac adnoddau.

- Gwybodaeth a phrofiad o ddatblygu, darparu a chyflwyno hyfforddiant achrededig, gwybodaeth a chefnogaeth i unigolion a/neu grwpiau agored i niwed mewn ffordd sensitif sy'n dangos empathi.

- Gwybodaeth am fodelau ymarfer ataliol a sut mae eu rhoi ar waith fel rhan o gyflwyno rhaglen.

- Profiad o reoli prosiectau gan gynnwys casglu a dadansoddi data prosiect a gwerthuso.

- Profiad o gyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

- Profiad o ddelio â gwybodaeth diogelu a chyfrinachol mewn ffordd broffesiynol.

- Gallu cymell eich hun ac yn gallu blaenoriaethu, cynllunio a gweithio mewn ffordd effeithiol, gyda phrin dim goruchwyliaeth.

- Gallu amlwg i weithio mewn tîm o gydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol drwy ddangos cydweithrediad a hyblygrwydd.

- Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys Microsoft Office, SharePoint, Teams, PowerPoint

- Bod yn barod i weithio oriau hyblyg a theithio’n aml ar draws Powys, ac weithiau Cymru. Trwydded yrru lawn a cherbyd at eich defnydd.

**Dymunol**

- Gallu cyfathrebu'n Gymraeg, ar lafar ac ar bapur

- Cymhwyster rheoli neu brofiad cyfatebol

- Dealltwriaeth dda o’r materion sy’n ymwneud â gofal maeth a’r system gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol ar lefel gradd neu gyfatebol, mewn maes fel gwaith cymdeithasol, addysg, datblygu cymunedol, gwaith ieuenctid, seicoleg, cymdeithaseg neu debyg

**Agweddau**

- Angerdd ac ymrwymiad i ennyn newid cadarnhaol i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

- Creadigol a meithrin ac yn canolbwyntio ar y datrysiad wrth ddatrys problemau.

- Ymrwymiad i weithio o fewn ymarfer a pholisïau cyfle cyfartal ac amrywiaeth y Rhwydwaith Maethu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

## Cyflog ac amodau gwaith y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Gwyliau Blynyddol** | 27 Diwrnod a 3 diwrnod i'w cymryd pan fydd y sefydliad yn cau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a Gwyliau Banc y flwyddyn |
| **Cyfnod prawf** | 6 mis calendr. |
| **Oriau gwaith** | 35<br>Croesewir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan amser, fel rhan o rannu swydd. |
| **Lleoliad** | Mae'r rôl yn golygu gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd a gofalwyr maeth ym Mhowys. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio yn ardal yr awdurdod lleol bob dydd oherwydd natur wyneb yn wyneb y rhaglen. |
| **DBS** | Bydd gofyn cael archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y swydd hon |
| **Pensiwn** | Dewisol. Mae cynllun pwrcasu-arian ac opsiwn ildio cyflog ar gael gydag AEGON:<br>Cyfraniad y gweithiwr 3% o'r cyflog blynyddol gros<br>Cyfraniad y cyflogwr 5% o'r cyflog gros. |
| **Benthyciad Tocyn Tymor** | Mae benthyciad tocyn tymor di-log ar gael i bob aelod o staff yn syth. |
| **Undeb Llafur** | Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cydnabod yr undeb llafur, Unite, a gall aelodau staff ymuno â'r undeb os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |